# Llinellau busnes BBC Studios

Asesu'r newidiadau i linellau busnes BBC Studios

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 9 Hydref 2020

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 4 Rhagfyr 2020

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn crynhoi ein barn ar y newidiadau i linellau busnes BBC Studios ac yn cynnig rhai newidiadau i Ofynion Masnachu a Gwahanu BBC.**

Mae'r BBC yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol i gynhyrchu elw, y gellir ei ail-fuddsoddi yn rhaglenni a gwasanaethau'r BBC ac ategu incwm o ffi'r drwydded. Bydd angen i'r gweithgareddau hyn addasu i'r amgylchedd sy'n newid ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi. Ein rôl ni fel rheoleiddiwr yw sicrhau nad yw'r berthynas rhwng y rhan o'r BBC sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded (y Gwasanaeth Cyhoeddus) a'r gweithgareddau masnachol yn ystumio'r farchnad nac yn creu mantais gystadleuol annheg. Rydym yn cefnogi'r angen i'r BBC arloesi, tyfu a newid cyn belled â bod hyn yn cael ei wneud yn deg.

Mae BBC Studios yn cynhyrchu ac yn dosbarthu cynnwys, yn berchen ar ac yn gweithredu sianeli (ee UKTV) ac mae ganddo fenter ryngwladol ar y cyd sy'n wasanaeth fideo ar alw drwy danysgrifio (BritBox yn UDA a Chanada), ac mae'n gwerthu fformatau rhaglenni yn rhyngwladol a chynhyrchion defnyddwyr fel DVDs a nwyddau.

Mae'r Gofynion yn datgan bod yn rhaid i'r BBC gael cyfradd fasnachol o enillion o'i is-gwmnïau masnachol a'i linellau busnes. Mae angen iddo hefyd bennu llinellau busnes sy'n briodol. Yn 2019, penderfynodd BBC Studios leihau ei linellau busnes o bump i ddau; ac, yn benodol, cyfuno'r gweithgareddau cynhyrchu a dosbarthu yn un llinell fusnes. Mae'r ymgynghoriad hwn yn asesu'r newidiadau hyn i linellau busnes BBC Studios fel rhan o raglen waith ehangach i adolygu'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn fwy cyffredinol.[1]

**Beth rydym wedi'i ganfod – yn gryno:**

*Rydym o'r farn bod y newidiadau i linellau busnes BBC Studios yn briodol*

Ar yr olwg gyntaf, rydym wedi canfod bod gan gwmnïau cynhyrchu o faint a chwmpas tebyg i BBC Studios gangen ddosbarthu integredig hefyd. Mae hyn wedi dod yn bwysicach gan fod disgwyl i gynhyrchwyr a dosbarthwyr helpu i ariannu costau creu rhaglenni.

**Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno:**

*Rydyn ni'n cynnig rhai newidiadau i ofynion y BBC i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol*

Mae gan y llinell fusnes cynhyrchu a dosbarthu, gyda'i chatalog helaeth o gynnwys Gwasanaeth Cyhoeddus, rai gweithgareddau na fyddai cystadleuwyr y BBC o'r un maint a chwmpas yn debygol o allu eu hefelychu i'r un graddau. Felly, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i BBC Studios ddarparu gwybodaeth ychwanegol, ond dim ond i Ofcom, gan ei bod yn fasnachol gyfrinachol. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro gweithgareddau'r llinell fusnes cynhyrchu a dosbarthu yn fwy manwl.

[1] Adolygu'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC: Cais am Dystiolaeth, 9 Hydref 2020.

Ac ystyried y newidiadau sylweddol y mae BBC Studios wedi'u gwneud i'w linellau busnes ers ei sefydlu yn 2017, rydym hefyd yn cynnig rhagor o newidiadau i'w Ofynion Masnachu a Gwahanu. Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC roi tri mis o rybudd i Ofcom am unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'w linellau busnes. Os ydym o'r farn bod y newidiadau yn anghyson â Gofynion y BBC, neu â'r Siarter a'r Cytundeb, byddem yn gallu camu i mewn i'w hatal ar ôl ymgynghori.

Rydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth gan bartïon sydd â diddordeb neu bartïon yr effeithir arnynt ynghylch ein barn am y newidiadau i linellau busnes BBC Studios, a'n cynigion i newid y Gofynion a'r canllawiau yn y maes hwn. Y dyddiad olaf ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ydy 4 Rhagfyr 2020. Ein nod yw cyhoeddi ein datganiad yn gynnar yn 2021.